**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**19 Rhagfyr 2016**

**AELODAETH GWEITHGOR Y CYNLLUN GWELLA**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Cytuno ar aelodaeth Gweithgor y Cynllun Gwella.

## Y Cefndir

2 Mae Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gwella yng Nghymru osod amcanion gwella iddynt eu hunain, ac ymgynghori'n eang gyda'r rhanddeiliaid perthnasol a phobl sydd â diddordeb yn y maes ynglŷn â chyflawni eu dyletswyddau gwella.

3 Mae Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) 2012 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau hynny gyhoeddi'r Cynllun Gwella y cytunwyd arno – gan ymgorffori eu hamcanion gwella – a hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol yn ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr cyn y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

4 Ers 2003, mae'r Awdurdod wedi enwebu aelodau i sefyll ar weithgorau i ddatblygu cynlluniau yn unol â'r gofynion cynllunio sy'n bodoli ar y pryd, ac mae hyn wedi dod yn rhan annatod o broses yr Awdurdod ar gyfer gosod y gyllideb a chynllunio.

## Gwybodaeth

5 Mae'r Gweithgor yn ymdrin â'r gwaith manwl sy'n gysylltiedig â phroses cynllunio a gosod y gyllideb yr Awdurdod, cyn iddo gyflwyno ei sylwadau i'r Panel Gweithredol i alluogi hwnnw i ffurfio argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub mewn perthynas â'r Cynllun i Leihau Risg a Gwella a'r gyllideb. Nid yw'r Gweithgor yn bwyllgor sydd â chyfansoddiad ffurfiol, ac felly nid yw ei gyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd. Bydd y Gweithgor yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y cyfnod cyn cyhoeddi dogfennau.

6 Yn y gorffennol, bu gwahanol ffurfiau i aelodaeth y gweithgor. Oherwydd pwysigrwydd proses y gyllideb a chynllunio ystyrir mai doeth o beth fyddai gwahodd, unwaith eto, bob aelod o'r Panel Gweithredol i fod yn aelodau o Weithgor y Cynllun Gwella.

7 Y bwriad yw i'r Gweithgor gyfarfod yn rheolaidd dros y misoedd nesaf i ddatblygu'r amcanion ymhellach gan gyhoeddi Cynllun Gwella drafft 2018-19 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus tuag at ddiwedd 2017 ac yna ei gyhoeddi ym Mawrth 2018.

8 Oherwydd yr etholiadau i'r awdurdodau lleol, dyma gynnig bod y Gweithgor yn cyfarfod ym mis Chwefror a mis Mawrth ac yn darparu amcanion gwella drafft i'r Awdurdod, a fydd yn newydd ar ôl yr etholiadau, eu hystyried yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

## Argymhellion

9 Gofynnir i'r Aelodau gytuno:

(i) bod aelodaeth lawn y Panel Gweithredol yn dod yn aelodaeth Gweithgor y Cynllun Gwella;

(ii) nodi dyddiadau cyfarfodydd y Gweithgor fel a ganlyn:
Dydd Llun 6 Chwefror, 2pm;
Dydd Llun 6 Mawrth, 2pm.